MENTERA

QMS - K09

# Polisi Preifatrwydd

mentera.cymru @menteracymru

Dyddiad cyhoeddi
06/03/2024

# Polisi Preifatrwydd ar gyfer y wefan

## Cyflwyniad

**Mae Mentera yn deall fod y wybodaeth rydych chi'n ei roi i ni yn bwysig i chi, ac rydym ni wedi ymrwymo i ddiogelu a pharchu eich preifatrwydd yn ogystal â datgan yn glir sut fydd y wybodaeth rydym ni'n ei chasglu yn cael ei defnyddio i ddarparu ein gwasanaeth i chi.**

## Nod

Nod y polisi hwn yw egluro pa wybodaeth bersonol sy'n cael ei chasglu gan Mentera pan fyddwch chi'n defnyddio'r wefan hon (mentera.cymru), gan gynnwys unrhyw ddata y gallech ei ddarparu drwy'r wefan hon wrth gymryd rhan mewn arolwg.

## Crynodeb

- Mae Mentera yn gwmni nid er elw ac felly ni fyddwn yn anelu at wneud elw o unrhyw wybodaeth rydym ni'n ei chadw.
- Ni fyddwn yn gwerthu nac yn rhannu gwybodaeth bersonol gydag unrhyw fasnachwr trydydd parti.
- Byddwn yn diogelu unrhyw wybodaeth bersonol gan ddefnyddio'r rheolaeth dechnegol a sefydliadol priodol.
- Ni fyddwn yn cadw eich data'n hirach nag sydd angen;
- Mae gennych hawl i ofyn am gopi o'r wybodaeth bersonol sydd gennym ni amdanoch a chynnig cywiriadau neu ddileu'r wybodaeth.

## Rheolydd

Mentera yw'r rheolydd data ac maent yn gyfrifol am eich data personol (cyfeirir at Mentera fel “ni” neu “ein” yn y polisi preifatrwydd hwn).

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu bryderon ynglŷn â pholisïau ac arferion Mentera ar gyfer trin eich data personol, cysylltwch â ni drwy e-bostio **dpo@menterabusnes.co.uk** neu drwy'r post at sylw: Swyddog Diogelu Data, Mentera, Uned 3 Y Parc Gwyddoniaeth, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3AH.

Mae gennych chi hawl i wneud cwyn ar unrhyw adeg at sylw Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, awdurdod goruchwylio'r DU ar gyfer materion diogelu data (www.ico.org.uk). Fodd bynnag, byddem yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymdrin â'ch pryderon cyn i chi fynd at yr ICO felly cysylltwch â ni yn y lle cyntaf.

## Gwybodaeth y gallwn ei chasglu amdanoch chi

Mae data personol, neu wybodaeth bersonol, yn golygu unrhyw wybodaeth am unigolyn lle byddai modd adnabod y person o'r data hwnnw. Nid yw'n cynnwys data lle bo'r manylion hynny wedi cael eu gwaredu (data dienw).

**Mae'n bosibl y byddwn yn casglu, defnyddio, storio a throsglwyddo'r wybodaeth ganlynol:**

- **Gwybodaeth hunaniaeth** gan gynnwys eich enw cyntaf, enw cyn priodi, cyfenw neu ffordd arall o'ch adnabod, statws priodasol, teitl, dyddiad geni, rhyw ac enw eich cwmni.
- Eich **manylion cyswllt** gan gynnwys cyfeiriad e-bost, cyfeiriad post a rhif ffôn.
- Data y byddwch chi'n ei anfon atom drwy'r wefan, gan gynnwys gwybodaeth y byddwch yn ei darparu mewn holiaduron neu unrhyw wybodaeth ysgrifenedig arall sy'n ymwneud ag ymholiad.
- Data yn ymwneud â **defnydd o'r wefan** sy'n cynnwys gwybodaeth ynglŷn â sut ydych chi'n defnyddio ein gwefan.
- **Data technegol** gan gynnwys cyfeiriad protocol y we (IP), math a fersiwn o borwr, gosodiadau amser a lleoliad, mathau o ategolion porwr a fersiynau, system weithredu a phlatfform ac unrhyw dechnoleg arall ar y dyfeisiau a ddefnyddir gennych i gael mynediad i'r wefan hon.
- **Data marchnata a chyfathrebu** sy'n cynnwys eich dewisiadau o ran derbyn deunyddiau marchnata gennym ni a'ch dewisiadau o ran cyfathrebu.

**Rydym ni'n casglu ac yn defnyddio data personol am unigolion sy'n:**

- Cysylltu â ni gan ddefnyddio'r post, ffôn, e-bost neu fel arall;
- Defnyddio systemau TGCh Mentera;
- Cwblhau ffurflen gofrestru drwy ein gwefan am un o'n rhaglenni;
- Cwblhau arolwg ar ein gwefan;
- Tanysgrifio i'n gwasanaethau neu gyhoeddiadau;
- Gofyn i ni anfon gwybodaeth farchnata atynt;
- Defnyddio ein gwefan - wrth i chi ymgysylltu gyda'n gwefan neu ein systemau TGCh, byddwn yn casglu data technegol am eich offer, a'ch gweithrediadau a'ch patrymau pori. Byddwn yn casglu'r data personol hwn drwy ddefnyddio cwcis a thechnolegau eraill tebyg.

## Data a dderbynnir gan drydydd parti

**Mae'n bosibl y byddwn yn derbyn data personol amdanoch gan y sefydliadau trydydd parti canlynol:**

Google – rydym ni'n defnyddio Google Analytics sy'n wasanaeth dadansoddi'r we a ddarperir gan Google;

The Rocket Science Group, LLC – sy'n rhedeg Mailchimp. Rydym ni'n defnyddio Mailchimp i reoli ein rhestr o danysgrifwyr marchnata e-bost ac i anfon negeseuon e-bost at ein tanysgrifwyr.

Llywodraeth Cymru (LlC) - lle'r ydym ni'n gweithio mewn partneriaeth â LlC neu lle bo LlC wedi ein cytundebu i ddarparu rhaglen benodol.

## Sut ydym ni'n defnyddio eich data personol

**Ni fyddwn yn defnyddio eich data personol oni bai bod hawl cyfreithiol gennym i wneud hynny. Fel arfer, byddwn yn defnyddio eich data personol dan yr amgylchiadau canlynol:**

Lle bo angen i ni gyflawni'r cytundeb yr ydym ar fin ei ddechrau neu eisoes wedi ei ddechrau gyda chi.

Pan fo'n angenrheidiol er budd ein diddordebau cyfreithlon (neu ddiddordebau trydydd parti) ac nad yw eich hawliau sylfaenol yn gorchfygu'r rhain.

Pan fo angen i ni gydymffurfio gyda goblygiadau cyfreithiol.

Rydym ni wedi amlinellu disgrifiad o'r holl ffyrdd yr ydym yn bwriadu defnyddio eich data personol ar ffurf tabl, a'r sail gyfreithiol yr ydym yn dibynnu arni er mwyn gwneud hynny. Rydym ni hefyd wedi nodi ein diddordebau cyfreithiol lle bo'n briodol.

| Pwrpas/Gweithgaredd | Math o Ddata | Sail gyfreithiol er mwyn prosesu, gan gynnwys sylfaen ein diddordeb cyfreithiol |
|---|---|---|
| I'ch cofrestru fel:<br>(a) cleient neu danysgrifiwr newydd; neu<br>(b) fynychwr mewn digwyddiad | (a) Adnabod<br>(b) Cyswllt | (a) Cyflawni cytundeb gyda chi<br>(b) Angenrheidiol ar gyfer ein diddordebau cyfreithiol (i redeg ein busnes ac i ddiweddaru ein cofnodion) |
| Er mwyn anfon manylion am unrhyw ddigwyddiadau y gallech fod yn eu mynychu | (a) Adnabod<br>(b) Cyswllt | (a) Cyflawni cytundeb gyda chi<br>(b) Angenrheidiol ar gyfer ein diddordebau cyfreithiol (i redeg ein busnes ac i ddiweddaru ein cofnodion) |
| Er mwyn rheoli ein perthynas gyda chi gan gynnwys eich hysbysu am unrhyw newidiadau i'n telerau neu ein polisi preifatrwydd | (a) Adnabod<br>(b) Cyswllt<br>(c) Marchnata a Chyfathrebu | (a) Cyflawni cytundeb gyda chi<br>(b) Angenrheidiol er mwyn cydymffurfio gyda goblygiadau cyfreithiol<br>(c) Angenrheidiol ar gyfer ein diddordebau cyfreithiol (i redeg ein busnes ac i ddiweddaru ein cofnodion) |
| I'ch galluogi i gwblhau ffurflen gofrestru neu holiadur | (a) Adnabod<br>(b) Cyswllt<br>(c) Defnydd<br>(d) Technegol<br>(e) Marchnata a Chyfathrebu | Angenrheidiol ar gyfer ein diddordebau cyfreithiol (i redeg ein busnes, darparu gwasanaethau gweinyddol a TG, ac i ddatblygu ein busnes) |
| Er mwyn gweinyddu a diogelu ein busnes a'r wefan hon (gan gynnwys datrys problemau, dadansoddi data, profi, cynnal a chadw systemau, cefnogaeth, adrodd a chadw data) | (a) Adnabod<br>(b) Cyswllt<br>(c) Technegol | a) Angenrheidiol ar gyfer ein diddordebau cyfreithiol (i redeg ein busnes, darparu gwasanaethau gweinyddol a TG, diogelwch y rhwydwaith ac atal twyll)<br>(b) Angenrheidiol er mwyn cydymffurfio gyda goblygiadau cyfreithiol |

| Pwrpas/Gweithgaredd | Math o Ddata | Sail gyfreithiol er mwyn prosesu, gan gynnwys sylfaen ein diddordeb cyfreithiol |
|---|---|---|
| I ddarparu cynnwys perthnasol ar gyfer y we | (a) Adnabod<br>(b) Cyswllt<br>(c) Defnydd<br>(d) Marchnata a Chyfathrebu<br>(e) Technegol | Angenrheidiol ar gyfer ein diddordebau cyfreithiol (i ddatblygu ein gwasanaethau, tyfu ein busnes ac i ddarparu cefndir ar gyfer ein strategaeth farchnata) |
| Er mwyn defnyddio data dadansoddi i wella ein gwefan, ein gwasanaethau, ein marchnata, perthynas â chleientiaid a phrofiadau | (a) Technegol<br>(b) Defnydd | Angenrheidiol ar gyfer ein diddordebau cyfreithiol (er mwyn cadw ein gwefan yn gyfredol a pherthnasol, i ddatblygu ein busnes ac i ddarparu cefndir ar gyfer ein strategaeth farchnata) |
| Er mwyn gwneud awgrymiadau ac argymhellion i chi ynglŷn â gwasanaethau neu ddigwyddiadau a allai fod o ddiddordeb i chi ac i gysylltu â chi i gwblhau ymchwil i'r farchnad | (a) Adnabod<br>(b) Cyswllt<br>(c) Technegol<br>(d) Defnydd<br>(e) Marchnata a Chyfathrebu | Angenrheidiol ar gyfer ein diddordebau cyfreithiol (er mwyn datblygu ein gwasanaethau a thyfu ein busnes) |

## Cadw Gwybodaeth

Rydym ni bob amser yn cadw eich gwybodaeth yn ddiogel.

Er mwyn atal datgeliad neu fynediad at eich gwybodaeth heb awdurdod, rydym ni wedi rhoi dulliau diogelwch electronig a chorfforol ar waith er mwyn sicrhau cyfrinachedd eich gwybodaeth bob amser, cyn belled ag y bo modd.

Mae unrhyw wybodaeth bersonol rydym ni'n ei chadw amdanoch chi'n cael ei gadw a'i brosesu yn unol â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf ar ddiogelu data.

## Google analytics ac ail-farchnata

Mae ein gwefan yn defnyddio technoleg Google analytics a Google re-marketing. Mae'r dechnoleg yma yn galluogi defnyddwyr sydd eisoes wedi ymweld â'n gwasanaethau ar-lein ac wedi dangos diddordeb yn ein gwasanaethau, i weld hysbysebion sydd wedi'u targedu ar wefannau rhwydwaith partneriaid Google. Yn yr un modd, gallwn gysylltu â defnyddwyr sy'n debyg i ymwelwyr ein gwefan. Bydd yr hysbysebion yn cael eu dangos trwy ddefnyddio cwcis gwefan. Trwy ddefnyddio cwcis, gellir dadansoddi ymddygiad defnyddiwr ar wefan cyn ei ddefnyddio er mwyn cynnig cynnyrch a dargedwyd a hysbysebion yn seiliedig ar ddiddordebau'r defnyddiwr.

Os oes yn well gennych chi beidio â derbyn unrhyw hysbysebion a dargedwyd, gallwch analluogi cwcis at y dibenion hyn trwy Google. Gall defnyddwyr hefyd analluogi cwcis gan ddarparwyr trydydd parti trwy ymweld â gwefan analluogi'r Network Advertising Initiative. Noder, serch hynny, fod gan Google ei bolisi diogelu data ei hun sy'n annibynnol o'n polisi ni. Nid ydym yn cymryd cyfrifoldeb nac atebolrwydd am eu polisïau a'u gweithdrefnau. Darllenwch bolisi preifatrwydd Google cyn defnyddio ein gwefan. How Google uses data.

## Cwcis

Ffeiliau testun bach yw cwcis sy'n cael eu hychwanegu at yriant caled eich dyfais trwy weinydd gwe o fewn ein parth. Ni ellir defnyddio cwcis ar gyfer rhedeg meddalwedd nac ychwanegu firws i'ch dyfais. Maen nhw'n unigryw i chi ac yn osgoi gorfod mewnbynnu'r un wybodaeth a dewis bob tro rydych chi'n ymweld â'n gwefan.

Gallwch rwystro cwcis drwy sbarduno'r gosodiad ar eich porwr sy'n caniatáu i chi wrthod gosodiad bob cwci neu ambell un. Fodd bynnag, os ydych chi'n defnyddio gosodiadau eich porwr i rwystro pob cwci, mae'n bosibl na fyddwch yn gallu cael mynediad at ein gwefan gyfan neu rannau ohoni.

## Datgelu eich data personol

**Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu eich data personol gyda'r partïon a amlinellir isod at y dibenion a nodir yn y tabl:**

- Darparwyr gwasanaeth sy'n darparu gwasanaethau TG a gweinyddu systemau ynghyd â chefnogaeth fusnes cyffredinol.
- Ymgynghorwyr proffesiynol gan gynnwys cyfreithwyr, cyfrifwyr ac yswirwyr sy'n darparu gwasanaethau ymgynghori, bancio, cyfreithiol, yswiriant a chyfrifeg.
- Llywodraeth Cymru, CThEM ac awdurdodau eraill sy'n seiliedig yn y Deyrnas Unedig sy'n gofyn am adrodd ar brosesu gweithgareddau dan amgylchiadau penodol.
- Sefydliadau sy'n cael eu cytundebu gan Lywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaeth a/neu raglen benodol.

Ni fyddwn yn rhannu data personol gyda sefydliadau trydydd parti yr ydym yn ymddiried ynddynt oni bai bod gennym gytundebau a rheoliadau perthnasol yn eu lle, sy'n ystyried eu prosesau trin gwybodaeth.

## Dolenni i wefannau allanol

Gallai ein gwefan gynnwys dolenni at wefannau allanol. Nid ydym yn gyfrifol am gynnwys gwefannau eraill nac am ddiogelwch a phreifatrwydd data rydych chi'n ei gyflwyno iddynt. Mae'r datganiad diogelwch hyn yn berthnasol i wefan Mentera yn unig.

## Marchnata

Mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio eich data personol, gan gynnwys data a dderbyniwyd gan drydydd parti, i lunio barn ynglŷn â'r hyn yr ydym ni'n meddwl sydd arnoch ei angen neu eisiau, neu'r hyn a allai fod o ddiddordeb i chi. Dyma sut yr ydym ni'n penderfynu pa gynnyrch, gwasanaethau a chynigion arbennig a allai fod yn berthnasol i chi.

Gallwch chi ofyn i ni beidio ag anfon negeseuon marchnata atoch ar unrhyw adeg drwy ddilyn y dolenni optio allan ar unrhyw neges farchnata a anfonir atoch neu drwy gysylltu â ni ar unrhyw adeg.

# Eich hawliau cyfreithiol

**Mae gennych chi'r hawl i:**

- Ofyn am fynediad at eich data personol (a elwir fel arfer yn "gais am fynediad at ddata"). Mae hyn yn eich galluogi i dderbyn copi o'r data personol yr ydym yn ei gadw amdanoch ac i wirio ein bod yn ei brosesu mewn modd cyfreithlon.

- Gofyn i ni gywiro'r data personol yr ydym yn ei gadw amdanoch. Bydd hyn yn eich galluogi i sicrhau bod unrhyw ddata anghyflawn neu anghywir yr ydym yn ei ddal amdanoch yn cael ei gywiro, ond mae'n bosibl y bydd angen i ni gadarnhau cywirdeb y data newydd y byddwch yn ei ddarparu i ni.

- Gofyn i ni ddileu eich data personol. Mae hyn yn eich galluogi i ddileu neu waredu eich data personol lle nad oes rheswm da i ni barhau i'w brosesu. Noder, fodd bynnag, na fydd yn bosibl i ni gydymffurfio â'ch cais i ddileu eich data am resymau cyfreithiol penodol y byddwn yn eu rhannu â chi os yn berthnasol pan fyddwch chi'n gwneud eich cais.

- Gwrthod hawl i brosesu eich data personol pan fyddwn ni'n dibynnu ar ddiddordeb cyfreithiol (neu ddiddordeb trydydd parti) a bod rhywbeth ynglŷn â'ch sefyllfa benodol sy'n gwneud i chi fod eisiau gwrthod yr hawl i brosesu ar y sail hon gan eich bod yn teimlo ei fod yn effeithio ar eich hawliau a'ch rhyddid sylfaenol.

- Gofyn i ni gyfyngu ar brosesu eich data personol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni beidio â phrosesu eich data yn y sefyllfaoedd canlynol:

    - Os ydych chi eisiau i ni gadarnhau cywirdeb y data.

    - Pan fo ein defnydd o'ch data yn anghyfreithlon ond pan nad ydych chi eisiau i ni ei ddileu.

    - Pan fyddwch chi angen i ni gadw'r data hyd yn oed os nad oes ei angen arnom bellach gan eich bod angen y data er mwyn cadarnhau, ymarfer neu gefnogi achosion cyfreithiol.

    - Pan fyddwch chi wedi gwrthod caniatâd i ni ddefnyddio eich data ond bod angen i ni ddilysu p'un a oes gennym ni achos cyfreithiol ar gyfer ei ddefnyddio ai peidio.

- Gofyn i ni drosglwyddo eich data personol i chi neu i drydydd parti. Byddwn ni'n ei ddarparu eich data personol i chi neu drydydd parti o ddewis mewn modd strwythuredig sy'n cael ei ddefnyddio'n gyffredin ac yn gallu cael ei ddarllen gan beiriant. Noder mai dim ond ar gyfer gwybodaeth awtomatig yr ydych chi wedi rhoi eich caniatâd i ni ei ddefnyddio y mae'r hawl hwn yn berthnasol, neu pan fyddwn ni wedi defnyddio'r wybodaeth i gyflawni cytundeb gyda chi.

- Tynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg pan fyddwn ni'n dibynnu ar eich caniatâd i brosesu eich data personol. Ni fydd hyn yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar gyfreithlondeb unrhyw waith prosesu a wneir cyn i chi dynnu eich caniatâd yn ôl.

Os hoffech ymarfer unrhyw un o'r hawliau a amlinellir uchod, cysylltwch â ni ar:

**dpo@menterabusnes.co.uk**

Neu

**Swyddog DPO, Mentera, Uned 3 Y Parc Gwyddoniaeth, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3AH**

Byddwn yn anelu at ateb o fewn 10 diwrnod gwaith a darparu'r wybodaeth o fewn 28 diwrnod.

Ni fydd rhaid i chi dalu ffi i gael mynediad at eich data personol (nag i ymarfer unrhyw un o'r hawliau eraill). Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddwn yn codi ffi resymol os mae eich cais yn amlwg yn ddi-sail, ailadroddus neu'n eithafol. Fel arall, byddai modd i ni wrthod cydymffurfio gyda'ch cais dan yr amgylchiadau hyn.

## Cwynion

Rydym ni'n gweithio'n galed i sicrhau fod eich gwybodaeth bersonol yn cael ei drin yn briodol ac yn croesawu'r cyfle i gywiro unrhyw gwynion a allai fod gennych am eich data sy'n cael ei gadw gan Mentera, ac eto gallwch gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion uchod.

## Cadw eich data

Mae Mentera a'r wybodaeth rydym yn ei gadw amdanoch chi yn ddarostyngedig i rai gofynion cyfreithiol a rheoliadol. Nid ydym yn bwriadu cadw eich gwybodaeth bersonol yn hirach nag sydd yn rhaid i ni yn ôl ein rhwymedigaeth â chi. Os oes angen cadw eich data, byddwn yn sicrhau bod y diogelwch priodol a mesurau sefydliadol ar waith i ddiogelu'r defnydd o'ch data.

## Trosglwyddiad Rhyngwladol

Mae'r mwyafrif o weithgarwch y cwmni yn digwydd o fewn y DU felly rydym ni'n gweithredu o dan nawdd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - yr awdurdod sy'n arwain ar oruchwylio diogelu data yn y DU.

Rydym ni'n cadw rhai gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â busnesau yng ngwledydd eraill o fewn yr UE a thu allan iddo. Nid yw'r wybodaeth yma yn cael ei chadw er budd ein cwmni ond mewn perthynas â datblygu cyfleoedd busnes ar gyfer cwmnïau Cymreig mewn gwledydd eraill. Bydd y wybodaeth yma'n cael ei diogelu gan ddefnyddio'r un protocolau llym.

Mae rhai o'n cyflenwyr trydydd parti wedi'u lleoli'r tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd; felly mae'n bosibl y bydd eu gwaith o brosesu eich data personol yn golygu trosglwyddo data y tu hwnt i'r AEE.

Noder ei bod yn bosibl nad oes gan rai o'r gwledydd y tu allan i'r AEE systemau diogelu tebyg ar waith o ran diogelu a defnyddio eich data fel sydd ar gael o fewn yr AEE. Felly, os byddwn yn trosglwyddo eich data i wledydd y tu allan i'r AEE, byddwn yn cydymffurfio gyda'r rheoliadau cyfreithiol perthnasol sy'n rheoli trosglwyddiadau o'r fath ac yn cymryd camau rhesymol i sicrhau bod eich data'n cael ei drin yn ddiogel.

## Newidiadau i'n polisi

Byddwn yn adolygu ein Polisi Preifatrwydd yn rheolaidd ac yn eich hysbysu o unrhyw ddiweddariadau trwy ein gwefan a sianelu cyfathrebu priodol.